

# Duw Tragwyddoldeb

---

---

## Adnodau agoriadol:

“Cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw.” *Salm 90: 2.*

“Myfi yw Alffa ac Omega, medd yr Arglwydd Dduw, yr hwn sydd a'r hwn oedd a'r hwn sydd i ddod, yr Hollalluog.” *Datguddiad 1: 8.*

## Geiriau agoriadol:

Pan fyddwn yn addoli Duw neu yn gweddïo arno, byddwn yn sefyll, nid o fewn terfynau amser yn unig, ond o fewn tragwyddoldeb.

Cofiwch eich bod, wrth weddïo'n awr, yn cyffwrdd ag ymylon tragwyddoldeb.

Gofynnwch i Ysbryd Duw eich helpu i ymdawelu ac i dreiddio'n ddyfnach i ryfeddod y tragwyddol.....

## Gweddï agoriadol:

Diolchwn, Arglwydd,  
am i ti roi i'n bywyd  
orwelion tragwyddol.  
Cod ni uwchlaw ffiniau amser  
a chyfyngiadau'r materol  
i rannu yn dy fywyd anfeidrol,  
a chyda holl gwmpeini'r nef  
sy'n trigo gyda ni  
yng ngogoniant dy deyrnas nefol,  
molwn a chlodforwn di,  
Dduw tragwyddoldeb. Amen.

**Emyn:** 88 Caneuon Ffydd

### **Myfyrdod:**

Peth rhyfedd ydi amser.

Petawn i'n gwybod mai hwn ydi'r tro olaf i mi dy weld yn cysgu, mi fuaswn yn rhoi'r flanced yn dynn amdanat a gofyn i Dduw gadw'th enaid.

Petawn i'n gwybod mai hwn fyddai'r tro olaf i mi dy weld yn mynd drwy'r drws, mi fuaswn yn dy gofleidio a'th gusanu, a'th alw yn ôl i gael mwy.

Petawn i'n gwybod mai hwn fyddai'r tro olaf i mi glywed dy lais, mi fuaswn yn rhedeg am y recordydd, fel y gallwn chwarae dy lais yn ôl pob dydd o'm bywyd.

Petawn i'n gwybod mai hwn fyddai'r tro olaf, mi fuaswn yn gallu treulio munud neu ddau i ddweud wrthyt 'mod i'n dy garu di, yn hytrach na 'mod i'n meddwl dy fod yn gwybod.

Mae'n siŵr fod yna yfory arall i wneud i fyny am y diffygion, a chawn ail gyfle i roi popeth yn ei le.

Mae'n siŵr fod yna gyfle arall i ddweud, 'Rwy'n dy garu' a choflaid a chusan.

Ond rhag ofn 'mod i'n anghywir, a fydd 'na ddim yfory, dyma ddweud cymaint ydw i'n dy garu, gan obeithio na fyddwn ni byth yn anghofio.

Does yna ddim addewid o yfory i neb, ifanc neu hen. A heddiw, efallai, yw'r cyfle olaf i ddweud y cyfan.

Felly, os ydych chi'n disgwyl am yfory, pam na wnewch chi weithredu heddiw?

Os na ddaw yfory, byddwch yn difaru am byth na chwsoch gyfle i fynd yr ail filltir honno a throi'r foch arall. Efallai eich bod yn rhy brysur i ganiatáu i rywun ei dymuniad olaf.

Daliwch ar eich cyfle heddiw; fe all yfory fod yn rhy hwyr.

Cymerwch eich amser heddiw i ddweud, 'Dwi'n sori', 'Wnewch chi faddau i mi?', 'Diolch am bopeth' neu 'Mae popeth yn iawn.' Ac os na ddaw yfory, fyddwch chi ddim yn edifar am heddiw.

**Darllen:** Llyfr y Pregethwr 3: 1 – 8.

**Cyfnod o ddistawrwydd:**

**Darllen:** Salm 90: 1 – 12.

**Cyfnod o ddistawrwydd:**

**Myfyrdod:**

Sut ydych chi'n teimlo ar ôl clywed geiriau'r Salmydd? Cân o glod i Dduw â'i gonsyrn tragwyddol am ddyn a'r ddynoliaeth a geir gan y Salmydd. Cân i godi calon ac i ddal ati. Yn y ddwy adnod gyntaf mae'r awdur yn peintio darlun anfeidrol o Dduw 'yn amddiffynfa ymhob cenhedlaeth' ac yn bresenoldeb sydd wedi bod 'o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb.' Anodd iawn ydi amgyffred mawredd y geiriau hyn ond mae'n nhw'n eiriau sy'n cysuro a'n sbarduno i godi a gweithredu.

Wn i ddim fyddwch chi'n teimlo cysur o fod ym mhresenoldeb rhywun mewn gwth o oedran? Un felly oedd Richard, Dic i'w ffrindiau agos. Treuliodd Dic ran helaetha'i oes yn llywiwr y bad achub. Doedd dim taw arno pan fyddai'n mynd i'r hwyl wrth ddisgrifio ei wrhydri yng nghynddaredd y môr. Roedd yn berchen dwy fedal aur am ei ddewrder a'i wydnwch. Doedd dim pall ar ei storïau a'i atgofion. Roedd ei gadernid, ac yntau bellach mewn gwth o oedran, yn cau amdanoch. Yn ei gwmni, ac yntau bellach yn ddall, roeddech bob amser yn teimlo'n ddiogel a chysurus.

Onid dyma'r teimlad wrth wrando ar eiriau'r Salm? Y diogelwch. Y cysur fod Duw yno. Pan fyddwn yn dechrau meddwl am amser mae'r meddwl yn gwegian. Yr unig beth allwn ei ddweud yw, "Mae meddyliau fel hyn tu hwnt i mi!" Meddyliwch am funud yn nhermau amser daearegol. Mae'r ddaear, ein planed ni, yn bodoli ers 4.5 miliwn o flynyddoedd. Mae gwyddonwyr yn darogan y bydd y blaned yn cael ei llosgi gan yr haul ymhên 5 biliwn o flynyddoedd. Ydi'r amseroedd hyn yn golygu rhywbeth i chi? Ond yng nghanol y tryblith ffigyrau hyn, sy'n golygu fawr ddim i'r mwyafrif ohono ni, cyhoeddi mae'r Salmydd fod Duw yn bod, yn sefydlog, yn ddigyfnewid. Yng nghanol mynd â dod ein hoes ni, da o beth i ni yw gofyn, 'Oes yna rywbeth sy'n aros?' Oes, Duw y digyfnewid o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb.

## Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrrio:

### Gweddi:

O Dduw, ein Tad,  
rydyn ni'n treulio  
gymaint o'n hamser  
yn ffwdanu am  
hyn a'r llall.  
Fel glöyn byw  
o flodyn  
i flodyn,  
ond ddim mor osgeiddig.  
Digon afrosgo a blêr  
ydi'n symudiadau.  
Wrthi.  
Poeni.  
Llafurio.  
Stryglo.  
Troi fel chwyrligwgan  
a'n cael ein hunain  
mewn rhwydau  
cymhleth  
a chaeedig.  
Ein holl obeithion  
wedi'u canolbwyntio  
ar heddiw.  
Y presennol.  
Bodddhad y funud.  
Elw'r eiliad.  
Mae'r holl redeg  
a rasio  
yn dwyn ei bleser,  
pleser y funud.  
Ac mewn dim,  
mae'r cyfan  
wedi diflannu

a'n gadael  
yn ddiymgeledd,  
heb ddim.  
Dim.

Dysg ni, O Dduw  
i hoelio'n meddyliau  
arnat ti.  
Helpa ni i ddarganfod  
y boddhad  
wyt ti am i ni'i  
gael yn y bywyd hwn  
a'r bywyd sydd i ddod.  
Helpa ni i fyw ein bywydau,  
nid yn unig yng nghyd-destun  
y bywyd hwn  
ond yng ngoleuni  
dy bwrpas tragwyddol.

Rwyt ti, trwy dy ras  
yn ein gwahodd  
i gyd,  
i ddod  
yn gyfranogion  
o'r bywyd hwn. Amen.

## **Cyddrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:**

**Emyn:** 87 Caneuon Ffydd.

### **Anerchiad:**

Ar y naill law, mae'r Salmydd yn dangos i ni fawredd Duw ond ar y llaw arall, mae'n dangos i ni freuder bywyd dyn, "Yr wyt ti'n troi pobl yn ôl i'r llwch, ac yn dweud, 'Trowch yn ôl, chwi feidrolion'" adn. 3.

Mae Duw yn dragwyddol. Mae dyn yn feidrol. Mae Duw yn dal ati ond daw bywyd dyn i ben. Fe ddaw rhai pethau heibio i'n hatgoffa o

fyrder bywyd. Wrth fynd heibio ysgol ein plentyndod a chofio'r dyddiau fel ddoe, neu wrth ddathlu pen-blwydd capel neu eglwys. Cofio am y dyddiau dedwydd yn aelod o'r ysgol Sul, neu cael ein derbyn yn gyflawn aelodau. Cofio diwrnod ein priodas, a dweud fel y byddwn ni, 'Cofio fel petai ddoe. I ble mae'r blynyddoedd wedi hedfan?' Deugain mlynedd. Hanner can mlynedd. Mae'r amser wedi mynd!

Mor wahanol ydi agwedd plant ac ieuenctid tuag at amser. Dydi'r ifanc ddim yn gofyn y cwestiynau hyn. Mae ganddyn nhw ddigon o amser, ond i'r person hwn, mae'n boen ar ei feddwl, "Beth ydw i wedi'i wneud efo mywyd?" "Mae'r blynyddoedd", meddai'r Salmydd, "yn dar fod fel ochenaid" adn 9. A dyna ddod â ni at ein hunain! Prin ydi'r amser, onid ydi'n well i ni ddechrau gwneud rhywbeth gwerth chweil weddill yr amser sydd gennym? Dyma'r amser hefyd i edrych yn ôl. Dechrau meddwl. Meddwl am yr holl amser rydyn ni wedi'i wastraffu. Mor braf fyddai cael mynd yn ôl i'r dechrau unwaith eto. Mor braf fyddai cael ail afael mewn bywyd! "Felly dysg i ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth" (adn 12).

Does dim rhaid i ni fod yn ddigalon. Meddylw'n fel hyn, 'Heddiw ydi diwrnod cyntaf gweddill fy nyddiau sydd ar ôl.' Heddiw mae dechrau byw y bywyd newydd. Dechrau byw o'r newydd. Byw egwyddor y Salmydd.

### **Gwedd:**

O! Arglwydd y gogoniant tragwyddol, at bwy yr awn ond atat Ti? Gwyddost fwy amdanom na'n cyfeillion agosaf, canys mae cudd feddyliau ein calon yn hysbys i Ti. Fe wêl pobl y pethau a wnawn, ond yr wyt Ti yn gwybod pam y gwnawn hwy.

Plygwn yn edifeiriol ger dy fron am inni fethu cyrraedd y nod mor aml, am i ni adael i hunanoldeb ladd ein hewyllys dda, am i ni beri i ragfarn amharu ar ein deall, ac am inni garu cysgodion y byd yn fwy na rhyfeddol oleuni'r nef.

Llefara wrthym yn awr a rho inni feddyliau agored i dderbyn y Gair. Maddau inni os byddwn weithiau yn cloi ein meddyliau rhag derbyn gwirionedd newydd a rhag newid llwybr ein deall. Dangos inni orwelion newydd a gwna ni'n barod i adael y rhigolau sy'n ein caethiwo. Dysg i

bawb ohonom, o bob oed, ymateb i'th ysbryd Di mewn ffordd fentrus a llawen.

Bendithia, O! Dduw, yr eglwys hon, fel y bendithiaist hi droeon lawer yn y gorffennol. Diolch am fod y cwmwl tystion o'n cwmpas, ac ysbryd teyrngarwch y cenedlaethau a fu yn dal i'n cymell. Cynorthwya'r rhai sydd yma heddiw i barchu'r dreftadaeth dda, ac yn fwy na dim, i garu enw Iesu. Bendithia'r rhieni er mwyn y plant, a bendithia'r plant er mwyn eu rhieni, ac arwain y rhai ifanc ym mhob menter afieithus i roi ystyr i'w ffydd.

Cofia yn arbennig heddiw am y rhai sy'n cerdded y llwybrau geirwon, ac amgylchiadau wedi mynd yn faich arnynt, oherwydd afiechyd neu hiraeth neu bryder. Diolch i Ti am bawb sy'n sefyll yn eu hymyl yn nydd y gofyn, ac yn dangos cariad a thiriondeb mawr. Bendithia waith y dwylo da a'r meddwl deallus ym mhob man.

Yn dy dosturi, edrych ar y byd yn ei anghenion amrywiol. Gyda chywilydd y cyffeswn fod ynddo gasineb sy'n lladd a hunanoldeb sy'n gormesu. Maddau, O! Arglwydd Iôr, bob balchder sy'n rhwystro gwaith dy Ysbryd Glân, a gwna ni bawb yn barotach i ddangos gostyngeddwydd a maddeuant.

Gofynnwn hyn oll yn enw ein Harglwydd Iesu, i'r Hwn y mae'r clod a'r anrhydedd yn oes oesoedd. Amen.

### **Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrrio:**

Mae'r Salmydd yn ein hatgoffa mor fyr yw bywyd, "Deng mlynedd a thrigain yw blynyddoedd ein heinioes, neu efallai bedwar ugain trwy gryfder" (adn 10). Mae'na gymaint i'w wneud a byr ydi'r amser. Mae marwolaeth yn ein hatgoffa, a'n deffro i sylweddoli fod yna bethau i'w gwneud a'u cyflawni. Mae gorchwylion i'w gwneud a thasgau i'w cwblhau. Y perygl yn aml ydi aros tan y funud olaf cyn cwblhau. Mi wnaiff yfory'r tro. Yn ei lythyr at Timotheus mae Paul yn annog y Timotheus ifanc i ddod drosodd ato, meddai, "Gwna dy orau i ddod cyn y gaeaf" (2 Timotheus 4: 21). Mae'r gaeaf yn gallu bod yn garchar. Dim modd symud o'r naill le i'r llall. Pan fydd y gaeaf wedi cilio a'r gwanwyn wedi dod, bryd hynny, efallai y bydd hi'n rhy ddiweddar. Bydd y gaeaf wedi gadael ei ôl. Ar ryw adeg yn ystod ein bywydau, byddwn

yn mynd heibio'r pwll, pwll Bethesda, lle bydd angel o dro i dro yn cynhyrfu'r dyfroedd. Plymiwch i'r dyfroedd a chewch iachâd, oedwch a gadewch i'r dŵr grychdonni a bydd hi'n rhy hwyr. Gweithredwch heddiw. Newidiwch eich ffordd o fyw heddiw. Cymodwch heddiw. Maddeuwch i'ch gwrthwynebydd heddiw. Fe all yfory fod yn rhy hwyr.

### **Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrrio:**

Geiriau digon digalon ydyn ni newydd eu clywed. Ond dowch i ni godi'n calonnau. "Bydded trugaredd yr Arglwydd ein Duw arnom; llwydda waith ein dwylo inni, llwydda waith ein dwylo" (adn 17). Mae'r mwyafrif ohonom wedi bod yn aelodau o eglwys Iesu Grist. Am ba resymau, tybed? Mae'r atebion yn amrywio. (Cawn gyfle i ymateb i'r cwestiwn hwn yn y drafodaeth maes o law). Mae llawer yn aelodau o'r eglwys Gristnogol am eu bod yn credu fod Duw yn adeiladu a lleadaenu'i Deyrnas drwy'r eglwys a'u bod yn rhan o'r fenter honno. Ydych chi wedi gweld twf a datblygiad? Neu a ydych chi wedi'ch dadrithio? Dywedodd Iesu ei bod yn anodd iawn gweld y Deyrnas yn tyfu. Mae'n gweithio yn y dirgel, yn ddistaw a digon disylw. Credwn ein bod yn rhan o broses hon, yn rhan o'r tyfiant araf ond sicr. Rydym yn cael ein galw i ymddiried yn Nuw, i fod yn ffyddlon ac i roi o'n gorau gan obeithio bydd yn ei dderbyn a'i ddefnyddio.

### **Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrrio:**

#### **Myfyrdod:**

Mae i Gymru enaid – ei henaid ei hun. A gall golli hwnnw. Gall addysg flodeuo; gall crefydd gryfhau; gall rhyddid ennill y dydd; gall y tlawd godi o'r llwch ac ymgryfhau; gall y goludog fod yn gadarn ac yn frigog fel y llawryf gwyrdd; tra enaid y genedl yn llesgáu a gwywo. Gall y genedl ymgolli yn yr ymerodraeth, a bod yn rhan farw yn lle bod yn rhan fyw, fel na chlywir llais mwy. A phe digwyddai'r trychineb hwnnw, byddai Cymru heb enaid a'r byd yn dlotach. Pan ddaw ymdrech newydd dros ryddid a chrefydd, nid Cymru a godai'r faner – byddai ei llais hi yn fud.



Y mae i Gymru ei hiaith ei hun, ac ni fedr gadw ei henaid hebddi. Nid hyn a hyn o eiriau, mwy neu lai nag mewn ieithoedd eraill, ydyw. Y mae ynddi brydyddiaeth bywyd a gobaith mil o flynyddoedd wedi ei drysori. Boed i Gymru bob llwyddiant. Daw cydraddoldeb a rhyddid, a sylweddolir llawer breuddwyd. Ond na chollwn ein golwg ar enaid y genedl. Mager ef yn yr ysgolion, a cholegau'r Brifysgol. Ond ei grud yw'r aelwyd. Yn yr amaethdy mynyddig, yn y bwthyn ar fin y nant, yng nghartref y glöwr – yno y caiff ysbryd y Cymry ei eni. Ac oni fegir hwn, cenedl ailraddol yn dynwared peth islaw ei bywyd fydd cenedl y Cymry.

*O. M. Edwards.*

**Emyn:** 77 Caneuon Ffydd.

### **Cwestiynau i'w trafod:**

Ydyn ni'n gwneud yn fawr o bob munud? Oes yna le i fyfyrion, llonyddu a hamddena mewn bywyd?

Beth yw 'byw i Dduw'? Ydi hynny'n golygu mynd i'r capel/eglwys yn gyson dair gwaith ar y Sul? Mynd i'r ysgol Sul a'r Seiat? Ynteu oes yna oblygiadau eraill i 'fyw i Dduw'? Trafodwch hyn o safbwynt (a) eich bywyd personol (b) bywyd eich eglwys.

Ydi byrder a breuder bywyd yn eich dychryn? Os ydyn ni'n ceisio argyhoeddi'n plant i wneud yn fawr o bob munud, ydyn ni mewn difri yn gwneud cam â nhw? Oes gan blentyn hawl i fyw y funud awr, a mwynhau cyfnod plentyndod?

Pam ydych chi'n aelod o'r eglwys? A ydych wedi bod yn aelod oes neu newydd ymuno? Beth ddylai fod eich prif gymhellion? Rhestrwch nhw yn ôl pwysigrwydd.

Thema'r oedfa hon yw y 'Duw Tragwyddol'. Sut fyddech chi'n dehongli beth yw 'tragwyddoldeb'? Beth oedd ym meddwl Iesu pan soniodd am 'fywyd tragwyddol'?

**Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrion:**

**Emyn:** 722 Caneuon Ffydd.

**Y Fendith:**

O Dduw, tragwyddol  
yr wyt ti yn aros yn un,  
ddoe, heddiw ac yn dragywydd.  
Diolchwn am y breintiau a  
roddaist i ni.  
Diolchwn am dy addewidion  
dy fod gyda ni bob amser  
hyd ddiwedd y byd. Amen.